

Sul y Gwahanglwyf

Darlleniad 1: 2 Brenhinoedd 5: 1-14

Darlleniad 2: Mathew 8: 1-4

Deuwn atat, ein Tad, yn wylaidd ac yn ostyngedig, gan gyflwyno i ti bawb sydd mewn gwaeledd a gwendid. Cyflwynwn yn arbennig i ti y dydd hwn y rhai sy'n dioddef o'r gwahanglwyf. Gwyddom fod llaweroedd wedi eu caethiwo yn gorfforol ac yn feddyliol gan yr afiechyd. Gwyddom am greulondeb yr afiechyd, ei niwed i gyrff a'i boen beunyddiol i'r dioddefwyr.

Diolch am dy Air sy'n datgan dy fod yn mynnu bod y rhai gwahanglwyfus yn cael eu glanhau. Clodforwn di am inni wybod nad oes 'na haint, na chlwy na chur na chilia dan dy ddwylo pur'. Clodforwn di am fod tosturi Iesu yng Ngalaria gynt i'w weld yng ngwasanaeth rhai o'th blant sy'n gweini'n dirion ar y claf. Gweddiwn, ein Tad, am i'th dosturi di gyffwrdd byd sydd mor amddifad ohono.

Diolchwn i ti am y rhai a gysegrodd eu doniau i gysuro'r trallodus, y rhai sydd wedi mentro eu bywydau i roi balm ar friwiau'r dolurus. Diolch i ti am y rhai sydd wedi dewis byw'n llwm ac yn dlawd er mwyn gweini ar y gwael a chysuro'r clwyfedig - y rhai sydd wedi gadael cartrefi moethus i fod yn gysur ac yn obaith i'r anghenus; y rhai sydd wedi defnyddio eu cyfoeth personol oherwydd bod anghenion dy blant yn fawr; y rhai sydd wedi clywed galwad dy efengyl di i wasanaeth eu hoes; y rhai sydd wedi ymroi i'r gwasanaeth hwnnw drwy fyw i'r gŵr fu ar y groes. Gweddiwn dros y rhai sy'n ddyfal yn eu gofalon:

‘Rho dy nodedd, rho dy gwmni,
Nos a dydd
I'r rhai sydd
Ar y gwan yn gweini.’

Cynorthwya ni i sylweddoli bod i ninnau, ein Tad, ran yn y frwydr i ddileu yr afiechyd sy'n difa cymaint o'th blant. Gad inni fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau i sicrhau bod y rhai sydd eisoes yn dioddef yn cael gofal mewn ysbytai sy'n gyfforddus, yn glyd ac yn lân a bod cyffuriau digonol ar eu cyfer. Gwyddom, ein Tad, bod cyfuniad o wybodaeth ac adnoddau gwyddonol technoleg fodern yn foddion i ddileu'r afiechyd sydd wedi blino dy bobl o ddyddiau Moses hyd ein dyddiau ni.

Maddau i ni ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n teimlo bod creu arfau ac offer dinistr yn rhagori ar feddyginiaeth a gwellhad i'r gwahanglwyfus. Cynorthwya ni i'th wasanaethu di drwy ofalu am ein gilydd mewn trugaredd a thosturi, fel y gall y clwyfus edrych ymlaen i'r dyfodol mewn gobaith a hyder. Arwain ni at gymdeithas sy'n amddifad o newyn a thlodi fel y dileir yr afiechyd hwn o'n byd.

‘Rho inni'n fuan weled dydd
Na cheir, drugarog Dduw,
Na newyn blin na thlodi chwaith,
Na neb heb gyfle i fyw.’

Gwyddom, O! Dad, dy fod yn y canol yn cyd-ddioddef gyda'th blant sydd dan eu doluriau:

‘Fe ddygodd ein doluriau
A'n clwyfau bob yr un,
Trwy rym tragwyddol gariad,
O fewn ei gorff ei hun.’

Bydded i'r mawredd sydd ynot ti gyffroi pobloedd i weithio dros dy deyrnas, fel bod gwên lle bu deigrin, rhyddid lle bu caethiwed, llawenydd lle bu tristwch.

Clyw ein gweddi, O! Dad pob trugaredd, am inni ofyn y cyfan yn enw Iesu a fu farw ar Groes ac a atgyfododd er iachawdwriaeth pob un ohonom. Amen.

Gwyn Thomas